Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
—
Public Accounts and Public Adm inistration Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol - Grŵp yr Economi,
Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

18 Tachwedd 2021

Annwyl Andrew

Maes Awyr Caerdydd

Diolch i chi a'ch swyddogion am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 3 Tachwedd. Rwyf wedi rhestru isod y camau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod:

- Fe wnaethoch gytuno i ddweud wrthym a dalwyd unrhyw fonysau neu fuddion i swyddogion gweithredol Maes Awyr Caerdydd ers i Lywodraeth Cymru gaffael y sefydliad yn 2013. Os felly, a allech chi hefyd ddarparu manylion y taliadau bonws neu'r buddion a dalwyd a rôl Holdco a/neu Lywodraeth Cymru mewn perthynas â nhw;

- Gwnaethoch gytuno i ddarparu mwy o wybodaeth am y senarios amgen, gan gynnwys y rhai nad oeddent yn cynnwys cefnogi'r Maes Awyr. Dylai hyn gynnwys eglurhad ynghylch pam nad oedd gwerthu, y gwahanol fathau o ryngweithio mewn perthynas â gwerthoedd tir na'r potensial ar gyfer caniatâd cynllunio wedi cael eu hystyried fel yr opsiwn a ffafrir ar gyfer symud ymlaen; ac

- Mewn ymateb i gwestiwn am yr amgylchiadau lle y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnig cymorth ariannol pellach i'r Maes Awyr a'r ffurf debygol ar gyfer y fath gymorth, gwnaethoch gyfeirio at y sefyllfa gyfnewidiol sydd ohoni. Gwnaethoch ychwanegu bod y rhain yn faterion y byddai angen i chi ddod yn ôl atynt maes o law o ystyried yr amgylchedd rheoleiddio cyffredinol, y sefyllfa ryngwladol mewn perthynas â gweithrediadau maes awyr a'r opsiynau a allai fod ar gael. Byddai'n dda pe bai hyn yn cael ei gwmpasu yn eich diweddariad chwe mis cyntaf i'r Pwyllgor.

Mewn trafodaeth breifat o'r dystiolaeth a gafwyd, cytunodd yr Aelodau i ddychwelyd at y mater hwn gyda chi yn nhymor yr haf 2022, ar ôl iddynt ystyried y diweddariad chwe mis cyntaf y gwnaethoch gytuno i'w anfon. Gyda hynny mewn golwg, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn darparu'r diweddariad erbyn 9 Mai 2022 fan bellaf. Edrychaf ymlaen hefyd at gael copi o'r adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Maes Awyr a'r trefniadau cyfredol yr ymgymerir â nhw o ran Holdco yn dilyn cytundeb ar y cynllun achub ac adfer.

Yn gywir,



Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor